
Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Egwyddorion “Na chant eu hebrwng” ar gyfer:

# Plant, Oedolion sy’n Wynebu Risg ac Oedolion a all fod ag anghenion gofal a chymorth



**Cadarnhawyd gan y Bwrdd**
**Medi 2022**

**Is-grŵp Protocolau a Gweithdrefnau**

**Dyddiad Adolygu**
**Medi 2025**

| **Cynnwys** | **Rhif y dudalen** |
|---|---|
| Cefndir | 3 |
| Cyflwyniad | 3 |
| Nodau | 4 |
| Diffiniad | 4 |
| Diogelu | 5 |
| Atal | 5 |
| Cyfrifoldebau Proffesiynol | 5 |
| Deall Rhwystrau i Bresenoldeb | 6 |
| Ymddieithrio | 6 |
| Dangosyddion a Phryderon Posibl | 7 |
| Pan na chaiff plant eu hebrwng / Dim Mynediad ar gyfer ymweliadau â'r cartref | 8 |
| Plant sy'n Hysbys i'r Gwasanaethau Plant Statudol neu yr Ystyrir eu bod yn Agored i Niwed | 9 |
| Pan na chaiff oedolion eu hebrwng / Dim Mynediad ar gyfer ymweliadau â'r cartref | 9 |
| Diogelu Pobl Feichiog pan fydd “na chant eu hebrwng” i apwyntiadau. | 10 |
| Argymhellion o Adolygiadau Ymarfer | 11 |
| Adnoddau | 12 |

## Cefndir

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn datgan bod yn **rhaid** i unrhyw un sy'n cyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf hon geisio hybu llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Mae llesiant yn cynnwys diogelwch rhag camdriniaeth ac esgeulustod.

Mae erthygl 25 o Ddatganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig yn datgan bod gan bob un "yr hawl i safon byw sy'n ddigonol ar gyfer iechyd a llesiant ei hun a'i deulu, gan gynnwys bwyd, dillad, tai a gofal meddygol a'r gwasanaethau cymdeithasol angenrheidiol. Mae gan Blant a Phobl Ifanc hawl i ofal iechyd (Erthygl 24 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989) ac mae hyn yn cynnwys y datganiad 'Bydd Partïon yn ymdrechu i sicrhau nad yw unrhyw blentyn yn cael ei amddifadu o'i hawl i gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd o'r fath'.

Yn hanesyddol "Heb Fynychu" (DNA) yw'r term a ddefnyddiwyd, yn enwedig mewn gwasanaethau Iechyd, pan nad yw plant neu oedolion yn cyrchu gwasanaethau neu'n mynd i apwyntiadau. Yn achos llawer o wasanaethau, oherwydd pwysau ar restrau aros, byddai colli nifer o apwyntiadau yn arwain at ryddhau'r plentyn neu'r oedolyn o'r gwasanaeth. Fodd bynnag, ychydig iawn o ystyriaeth a roddwyd i'r ffaith bod angen i blant, a rhai oedolion, gael eu hebrwng neu eu cefnogi gan riant, aelod o'r teulu, neu ofalwr, ac felly gall y term Heb Fynychu guddio materion sy'n peri pryder.

## Cyflwyniad

Roedd fersiynau blaenorol o ganllawiau "Heb Fynychu" yn bennaf yn ddogfen gan y Bwrdd Iechyd a anelwyd at lesiant plant a diogelu plant. Mae'r set hon o egwyddorion wedi ehangu'r cylch gorchwyl hwn i ystyried gwasanaethau sy'n sicrhau llesiant, datblygiad, neu reolaeth gofal plant neu oedolion.

At ddiben y ddogfen hon, mae "plant" yn cyfeirio at bob person ifanc o dan 18 oed. Pan fyddwn yn ystyried "oedolion" mae'r ddogfen hon yn cyfeirio'n benodol at oedolion sy'n wynebu risg ac oedolion a all fod ag anghenion gofal a chymorth. Gan gydnabod pwysigrwydd diogelu drwy'r cyfnod pontio, wrth gymhwyso'r canllawiau hyn mae angen hefyd ystyried y bobl ifanc hynny sydd ag anghenion gofal a chymorth parhaus sy'n gofyn am ymyriad gwasanaethau oedolion. Mae hyn yn golygu mabwysiadu dull cyfannol sy'n sicrhau parhad o ran amddiffyn pobl ifanc a'u cefnogi wrth iddynt symud o blentyndod i fyd oedolion, a chymhwyso'r egwyddorion hyn yn unol ag egwyddorion 'na chant eu hebrwng'.

Mae'r canllawiau hyn yn ceisio defnyddio'r cysyniad 'na chant eu hebrwng' lle gall unigolyn ddibynnu ar ofalwr, aelod o'r teulu neu ffrind i ddod ag ef i apwyntiadau oherwydd ei anghenion gofal a chymorth. Dylid ystyried hyn yng nghyd-destun 'na chant eu hebrwng' yn hytrach na 'heb fynychu'. Mae'r canllawiau iechyd cyfredol ar gael yma: [Canllawiau Na Chant eu Hebrwng – Iechyd Cyhoeddus Cymru]

Pan na fydd plant, pobl ifanc, oedolion sy'n wynebu risg neu oedolion y mae angen gofal a chymorth arnynt yn cael eu hebrwng i apwyntiadau, cyflwynir nifer o faterion sy'n peri her i wasanaethau ac sydd â'r potensial i arwain at angen nas diwallwyd ar gyfer y plant, y bobl ifanc, neu'r oedolion. Mae'r set hon o egwyddorion yn pennu'r hyn y dylai ymarferwyr ei wneud os na chaiff plant, pobl ifanc neu oedolion y mae angen cymorth arnynt eu hebrwng i apwyntiadau. Yn ogystal â hyn, y nod yw hyrwyddo ymgysylltiad gwell gan blant, pobl ifanc ac oedolion â gwasanaethau drwy annog safon gyffredin ar draws pob darparwr.

Mae llawer o Adolygiadau Ymarfer Plant, Adolygiadau Ymarfer Oedolion ac Adolygiadau Lladdiadau Domestig, yn genedlaethol ac yn rhanbarthol, wedi nodi y gall peidio â chael eu hebrwng i apwyntiadau meddygol fod yn rhagflaenydd i gam-drin difrifol ac y gall beri risg i oedolion a phlant. Cyhoeddwyd adolygiad ymarfer oedolion yng Ngwent ac mae'r ddolen i'r briff 7 munud yn rhoi trosolwg o rai o'r pryderon diogelu a oedd yn ymwneud â'r achos penodol hwn am oedolyn a oedd yn destun rheolaeth orfodol ac a oedd yn cael ei atal rhag mynd i apwyntiadau. (Briff 7 Munud - Adolygiad Ymarfer Oedolion GWASB 3/2019 (gwentsafeguarding.org.uk)

## Nodau

- Mae'r set hon o egwyddorion yn amlygu bregusrwydd posibl plant, pobl ifanc neu oedolion nad ydynt yn cael eu hebrwng i apwyntiadau ac mae'n gwneud argymhellion fel bod lles yr unigolyn bob amser yn brif ffocws i ymarferwyr.
- Nod y set hon o egwyddorion yw sicrhau bod ymarferwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd ceisio meithrin perthynas therapiwtig â phlant, pobl ifanc, oedolion, neu rieni a gofalwyr a all ymddangos yn anodd ymgysylltu â nhw, er mwyn sicrhau bod asiantaethau yn gallu cynnig gwasanaeth priodol i'r unigolion a'r teuluoedd, yr oedolion a'r plant hynny na chant eu hebrwng i apwyntiadau.
- Mae'r set hon o egwyddorion yn amlinellu'r ffordd y dylid ymdrin â phlant, pobl ifanc, oedolion, a theuluoedd y mae'n anodd ymgysylltu â nhw, gan gynnwys pwysigrwydd trafodaethau ac adolygiadau amlddisgyblaethol, cofnodi penderfyniadau a digwyddiadau, a'r broses o asesu risg pob amgylchiad unigol i lywio cynllun i ymgysylltu â'r plentyn, yr unigolyn ifanc, neu'r oedolyn.

Mae'r set hon o egwyddorion wedi'i datblygu i ddangos i bob ymarferydd yng Ngwent bwysigrwydd prosesau i'w dilyn yn yr amgylchiadau canlynol:

- Pan fydd gwasanaethau i blant yn cael eu gwrthod.
- Pan na chaiff plant neu bobl ifanc eu hebrwng i'w hapwyntiadau dro ar ôl tro.
- Pan nad yw plant a phobl ifanc ar gael dro ar ôl tro ar gyfer ymweliadau a drefnwyd â'u cartref.
- Pan na chaiff oedolion sy'n wynebu risg eu hebrwng i apwyntiadau dro ar ôl tro.
- Pan na chaiff oedolion y mae angen cymorth arnynt i fynd i apwyntiadau eu hebrwng

i apwyntiadau.

Darperir canllawiau penodol ar apwyntiadau iechyd yng *Canllawiau* Gofal Sylfaenol Iechyd Cyhoeddus Cymru: 'Heb eu Cludo i Apwyntiadau / Diffyg mynediad: Ystyriaethau Diogelu Plant neu Oedolion dan risg,' y gellir dod o hyd iddynt yma:

- Canllawiau Heb eu Cludo i Apwyntiadau / Diffyg mynediad [Cymraeg]
- Was Not Brought to Appointments/No Access Gained Guidance [English]

Mae'r canllawiau'n nodi y gall methu apwyntiadau yn achos rhai plant ac oedolion sy'n wynebu risg fod yn arwydd eu bod yn wynebu risg uwch o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

## Diffiniad

Diffinnir 'Na chant eu hebrwng' fel unrhyw apwyntiad wedi'i drefnu (wyneb yn wyneb a/neu yn rhithwir) i weld plentyn, unigolyn ifanc, neu oedolyn lle, heb hysbysu'r gwasanaeth, na chant eu hebrwng gan riant neu ofalwr cyfrifol i'w hapwyntiad. Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw gyswllt a drefnwyd ymlaen llaw gyda phlentyn, person ifanc neu oedolyn boed hynny yn ei gartref, mewn clinig cymunedol, mewn adeilad tîm cymunedol, mewn ysbyty, neu unrhyw fath arall o gyswllt a drefnwyd mewn perthynas â darparu'r gwasanaeth hwn.

## Diogelu

O ran diogelu, fel bob amser os bydd gan ymarferydd bryderon brys am ddiogelwch unrhyw blentyn, person ifanc neu oedolyn, dylai ffonio 999 a gofyn am ymyriad gan y gwasanaeth brys.

## Atal

Gall plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau wynebu pwysau a gofynion amryfal sy'n ei gwneud yn fwy anodd iddynt fynd i apwyntiadau; mae hyn hefyd yn wir am eu gofalwyr neu eu rhieni. Gall hyn gynnwys materion cyfathrebu megis llythrennedd, iaith ac anableddau dysgu, materion yn ymwneud â'u symudedd, diffyg cludiant, cyfrifoldebau gofalu eraill, neu unrhyw lefel o dlodi, gwahaniaethu ac allgáu cymdeithasol.

Gall ystyried yr heriau posibl, boed yn hysbys neu'n anhysbys, sy'n wynebu'r plentyn, y person ifanc, neu'r oedolyn, ynddo'i hun, arwain at ostyngiad yn nifer yr apwyntiadau a gollir; felly dylai asiantaethau sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch, yn berthnasol, yn hawdd eu defnyddio a, lle y bo'n bosibl, yn hyblyg, gan gydnabod hefyd iaith, eglurder, ac amseroldeb llythyrau a dogfennau.

## Cyfrifoldeb Proffesiynol

Os bydd gan unrhyw ymarferydd bryderon ynghylch apwyntiadau a gollwyd, dylai drafod ei bryderon â'i Arweinydd/Unigolyn Diogelu Dynodedig neu Reolwr Llinell.

## Deall Rhwystrau i Bresenoldeb

**Ni fydd pob apwyntiad a gollir na phob ymweliad lle na chafwyd mynediad yn arwydd o bryderon diogelu. Fodd bynnag, yn achos plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg, gall rhwystrau i bresenoldeb adlewyrchu materion dyfnach y mae gofyn eu harchwilio mewn modd sensitif a darparu ymateb diogelu ar eu cyfer. Mae'n hanfodol ymdrin ag absenoldeb â chwilfrydedd proffesiynol, gan archwilio'r rhesymau heb farnu a deall y goblygiadau diogelu posibl y tu ôl i'r cyswllt iechyd a gollwyd. I gael rhagor o wybodaeth am Chwilfrydedd Proffesiynol, cliciwch yma: Briff 7 Munud chwilfrydedd proffesiynol**

- **Nodwyd y rhwystrau isod yng nghanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru**
- **Canllawiau Heb eu Cludo i Apwyntiadau / Diffyg mynediad [Cymraeg]**
- **Was Not Brought to Appointments/No Access Gained Guidance [English]**

| **Rhwystrau Emosiynol, Seicolegol ac Amgylcheddol** | **Cynllun Cyfathrebu a Mynediad** |
|---|---|
| • Ofn, gorbryder, neu drawma sy'n gysylltiedig â lleoliadau gofal iechyd neu brofiadau blaenorol<br>• Rheolaeth drwy orfodaeth neu gamdriniaeth ddomestig yn cyfyngu ar symudiadau neu fynediad at wasanaethau<br>• Drwgdybio gwasanaethau neu wedi ymddieithrio rhagddynt oherwydd profiadau negyddol blaenorol<br>• Anghenion iechyd meddwl y rhieni/gofalwyr yn effeithio ar eu gallu i fynd i apwyntiadau<br>• Anhrefn neu ansefydlogrwydd yn amgylchedd y cartref<br>• Diffyg dealltwriaeth rhieni | • Rhwystrau o ran iaith a llythrennedd<br>• Diffyg cyfleoedd i ddefnyddio cyfieithwyr ar y pryd neu wybodaeth wedi'i chyfieithu<br>• Anghenion mynediad yn ymwneud ag anabledd (corfforol, synhwyraidd, anabledd dysgu)<br>• Unigolion niwrowahanol y gall fod angen addasiadau ychwanegol arnynt |
| **Rhwystrau Ymarferol ac Economaidd-gymdeithasol** | **Cyfrifoldebau Sefydliadol** |
| • Caledi ariannol yn effeithio ar fynediad at gludiant neu ddulliau cyfathrebu<br>• Ansefydlogrwydd o ran tai, symud yn aml, neu leoliadau'n chwalu<br>• Diffyg gofal plant neu gyfrifoldebau sy'n mynnu sylw<br>• Allgáu digidol yn effeithio ar eu gallu i gymryd rhan mewn apwyntiadau rhithwir neu o bell | **Dylai asiantaethau geisio lliniaru rhwystrau drwy sicrhau'r canlynol:**<br>• Bod apwyntiadau'n cael eu trefnu mewn modd hyblyg (e.e. gyda'r nos, ar benwythnosau)<br>• Bod apwyntiadau o bell neu apwyntiadau allgymorth yn cael eu defnyddio lle y bo'n ddiogel ac yn briodol |

| | |
|---|---|
| • Problemau cludiant, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig neu i'r rhai sydd ag anghenion symudedd<br>• Gall gwelliant mewn symptomau arwain at lai o gymhelliant i fynd i apwyntiadau<br>• Hyd yr amser aros am yr apwyntiad<br>• Diffyg cefnogaeth gan ofalwyr i fynd i apwyntiadau/gofalwyr yn eu hatal rhag mynd i apwyntiadau | • Bod gwasanaethau'n cydlynu er mwyn osgoi dyblygu neu ofynion sy'n groes i'w gilydd<br>• Bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud ar gyfer anghenion yn ymwneud ag anabledd, cyfathrebu, neu ddiwylliant<br>• Cyfathrebu clir, cynhwysol wedi'i deilwra i amgylchiadau unigol |

## Dangosyddion a Phryderon Posibl

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi nodi'r fframwaith isod sy'n cefnogi ymarferwyr wrth asesu risg pan na fydd plant, pobl ifanc, neu oedolion sy'n wynebu risg yn cael eu hebrwng i apwyntiadau neu pan na cheir mynediad ar gyfer ymweliadau â'r cartref neu ymweliadau rhithwir a drefnwyd. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr a dylid ei defnyddio ar y cyd â barn broffesiynol a gweithdrefnau amlasiantaethol.

| **Cyd-destun a Hanes** |
|---|
| • Ai dyma'r cyswllt cyntaf a gollwyd, neu a yw'n rhan o batrwm?<br>• A oes mwy nag un gwasanaeth yn rhan o hyn? (e.e. addysg, gofal cymdeithasol, iechyd meddwl)<br>• A oes hanes o golli apwyntiadau neu ymweliadau lle na chafwyd mynediad?<br>• A fydd unigolion yn canslo apwyntiadau'n gyson ymlaen llaw?<br>• A oes hanes diogelu hysbys ar gyfer yr unigolyn neu’r teulu?<br>• A oes unrhyw newidiadau diweddar o ran y teulu, y trefniadau byw, neu'r gofalwyr?<br>• A oes pryderon ynghylch Cydymffurfiaeth Gudd – lle mae unigolyn, rhiant neu ofalwr yn ymddangos fel pe bai'n ymgysylltu ond nad yw'n ymgysylltu’n llawn â’r gwasanaeth a/neu’n canslo apwyntiadau ar y funud olaf, "nid yw cyfranogiad yr un peth â chydweithredu" (D. Elliman 2010). |
| **Amgylchiadau Unigol** |
| • A yw'r unigolyn yn dibynnu ar rywun arall er mwyn gallu mynd i apwyntiadau neu gael mynediad?<br>• A yw’n hysbys bod gan yr unigolyn anghenion iechyd cymhleth, anabledd, neu fregusrwydd?<br>• A oes problem hysbys o ran galluedd, cydsyniad, neu anghenion cyfathrebu?<br>• A yw'r unigolyn wedi pontio rhwng gwasanaethau yn ddiweddar (e.e. pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion)?<br>• A yw'r unigolyn yn gofalu am eraill, a allai effeithio ar ei allu i fynd i apwyntiadau? |
| **Ffactorau'n ymwneud â'r Teulu/Gofalwyr** |

| |
|---|
| A oes pryderon hysbys yn ymwneud ag ymgysylltiad neu gydymffurfiaeth y rhieni/gofalwyr?<br>• A oes unrhyw arwydd o esgeulustod, camddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig, neu broblemau iechyd meddwl yn y cartref?<br>• A oes rhwystrau o ran iaith, llythrennedd, neu ddiwylliant yn effeithio ar ei allu i fod yn bresennol?<br>• Nid yw'r plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn yn cael ei gefnogi i fynd i apwyntiadau, neu mae unigolyn arall sy'n chwarae rhan sylweddol yn ei ofal yn ei atal rhag mynd.<br>• A oes unrhyw ymddygiad gelyniaethus neu ystrywgar tuag at ymarferwyr?<br>• Teimlad bod plentyn, person ifanc, oedolyn, rhieni, neu ofalwyr yn mynd ati i osgoi cyswllt ag ymarferwyr. |
| **Ymgais i Ymgysylltu** |
| • A gymerwyd camau dilynol rhagweithiol yn dilyn yr apwyntiad cyntaf a gollwyd neu'r ymweliad cyntaf lle na chafwyd mynediad?<br>• A gynigiwyd addasiadau rhesymol (e.e. amser, lleoliad, cyfieithydd ar y pryd, cludiant)?<br>• A gysylltwyd â'r unigolyn/teulu i archwilio'r rhesymau dros beidio â mynd?<br>• A ofynnwyd am gydsyniad i rannu gwybodaeth lle y bo'n briodol? |
| **Ystyriaethau Diogelu** |
| • A allai'r cyswllt a gollwyd fod yn arwydd o anghenion iechyd nas diwallwyd neu niwed posibl?<br>• A drafodwyd y sefyllfa gydag arweinydd diogelu neu reolwr llinell?<br>• A rannwyd y wybodaeth â phartneriaid amlasiantaethol perthnasol?<br>• A oes angen uwchgyfeirio neu atgyfeirio o dan weithdrefnau diogelu? |
| **Dogfennaeth a Chamau Gweithredu** |
| • A yw'r cyswllt a gollwyd a'r holl gamau gweithredu dilynol wedi'u cofnodi'n glir?<br>• A oes unrhyw gamau diogelu neu atgyfeiriadau wedi cael eu cofnodi a'u holrhain?<br>• A oes angen adolygiad neu drafodaeth achos â'r tîm ehangach neu'r arweinydd diogelu? |

## Pan na chaiff plant eu hebrwng / Dim Mynediad ar gyfer ymweliadau â'r cartref

**Mae angen cymryd y camau ymarfer canlynol wrth weithio gyda phlant nad ydynt yn cael eu hebrwng i apwyntiadau neu lle na roddir mynediad i ymarferwyr ymweld â'r cartref:**

- Cofnodi yn adran gronolegol Cofnod y Plentyn a'r Teulu neu system gofnodi'r sefydliad, fod apwyntiad wedi'i gynnig a/neu y ceisiwyd ymweld â'r cartref, ond nad oedd hyn yn llwyddiannus.
- Cysylltu â'r teulu mewn modd amserol i drafod y rheswm dros beidio â bod yn bresennol ac arfer chwilfrydedd proffesiynol er mwyn archwilio unrhyw rwystrau i ymgysylltu.
- Cadarnhau bod y manylion cyswllt yn gyfredol ac aildrefnu'r apwyntiad os oes angen, gan ystyried unrhyw rwystrau a nodwyd.
- Os nodir risgiau neu bryderon mewn perthynas â diffyg presenoldeb y plentyn/person ifanc, dylai'r ymarferydd geisio cyngor gan Arweinydd Diogelu y sefydliad neu'r Gwasanaethau Plant. Gall y Canllawiau ar y Continwwm Cymorth a'r Trothwyon mewn perthynas â'r Ddyletswydd i Adrodd ar Blant sy'n Wynebu Risg gefnogi ymarferwyr i arfer eu barn broffesiynol a gellir dod o hyd i'r ddogfen yn y fan hon: Canllawiau ar y

Continwwm Cymorth a'r Trothwyon mewn perthynas â'r Ddyletswydd i Adrodd ar Blant sy'n Wynebu Risg Mawrth 2024

- Os yw'r risgiau a nodir yn sylweddol, dylid cyflwyno Ffurflen Dyletswydd i Adrodd i'r Gwasanaethau Plant. Os ystyrir bod y pryderon yn fater brys, dylid gwneud hyn dros y ffôn yn y lle cyntaf ac olrhain y mater cyn pen 24 awr drwy gyflwyno manylion y Ddyletswydd i Adrodd. Mae manylion ynghylch cyflwyno Dyletswydd i Adrodd ar gyfer Plant yng Ngwent ar gael yma: Rhoi gwybod am blentyn sydd mewn perygl - Diogelu Gwent.
- Dylid cofnodi pob cam gweithredu yn unol â pholisi yr asiantaeth.
-

Er y cydnabyddir bod gan y rhan fwyaf o deuluoedd resymau da dros beidio â bod yn bresennol, mae'n bwysig cydnabod y canlynol:

*'gall ymddieithrio fod yn rhannol, yn ysbeidiol neu'n barhaus ei natur. Gall fod yn arwydd o gynnydd mewn straen o fewn teulu ac achos posibl o gam-drin neu esgeuluso babanod, plant, pobl ifanc neu oedolion sy'n wynebu risg. Felly, mae angen adnabod arwyddion cynnar o ymddieithrio er mwyn asesu'r risg bosibl. Cydnabyddir yn eang y gallai'r sefyllfa hon arwain at ganlyniadau difrifol o bosibl i rai plant ac oedolion sy'n wynebu risg. Mae angen i weithwyr proffesiynol ddadansoddi ac asesu'r risg mewn sefyllfaoedd lle mae ymddieithrio yn nodwedd (Yr Adran Iechyd 2010)'.*

https://www.youtube.com/watch?v=dAdNL6d4Ipk *Gyda diolch i Gyngor Sir Nottingham, a gomisiynodd yr animeiddiad byr hwn.*

Mae'r animeiddiad hwn yn ffordd bwerus o'n hatgoffa na all y rhan fwyaf o blant neu bobl ifanc eu hebrwng eu hunain i apwyntiadau; mae'n rhaid iddynt gael eu cefnogi gan rieni neu ofalwyr. Mae'r animeiddiad hwn yn annog ymarferwyr i fyfyrio ar yr effaith y gall colli apwyntiadau ei chael ar lesiant plentyn.

## Plant sy'n Hysbys i'r Gwasanaethau Plant Statudol neu yr Ystyrir eu bod yn Agored i Niwed

Mewn amgylchiadau lle y mae plant/pobl ifanc yn hysbys i'r Gwasanaethau Plant, megis plentyn y mae ei enw ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, Plant Sy'n Derbyn Gofal, plant sy'n destun cynllunio Gofal a Chymorth, neu h.y. plant ag anghenion iechyd neu anabledd sy'n hysbys i'r Gwasanaethau Plant, mae'n rhaid mabwysiadu dull mwy cadarn. Mewn sefyllfaoedd lle na chaiff plentyn ei hebrwng i apwyntiadau, ni all yr ymarferydd gael mynediad, neu lle y mae'r teulu'n gwrthod gwasanaeth, bydd yr ymarferydd yn cydgysylltu â'r holl ymarferwyr/asiantaethau perthnasol ac yn cofnodi hyn yng Nghofnod y Plentyn a'r Teulu/system adrodd y sefydliad. Dylid hefyd ystyried a yw Dyletswydd i Adrodd yn angenrheidiol.

Dylai ymarferwyr sy'n rhan o Gynllun Gofal a Chymorth/Gynllun Amddiffyn plentyn sicrhau bod y wybodaeth hon hefyd yn cael ei rhannu'n ffurfiol mewn cyfarfodydd adolygu a fydd yn cynnwys y rhiant ac weithiau'r plentyn ei hun.

**Ni ddylai plant y gwyddys eu bod yn ymwneud â Gwasanaethau Plant statudol gael eu rhyddhau o unrhyw wasanaeth heb ymgynghori â'u Gweithiwr Cymdeithasol.**

## Pan na Chaiff Oedolion eu Hebrwng / Dim Mynediad ar gyfer Ymweliadau â'r Cartref

**Mae'r camau ymarfer canlynol yn ofynnol wrth weithio gydag oedolion sy'n wynebu risg ac oedolion a all fod ag anghenion gofal a chymorth nad ydynt yn cael eu hebrwng i apwyntiadau neu lle na roddir mynediad i ymarferwyr ymweld â'r cartref:**

- Dylai ymarferwyr gofnodi mewn Nodiadau Achos neu ar system gofnodi y sefydliad, fod apwyntiad wedi'i gynnig a/neu y ceisiwyd ymweld â'r cartref, ond nad oedd hyn yn llwyddiannus.
- Cysylltu â'r unigolyn/aelod o'r teulu a/neu'r gofalwr mewn modd amserol i drafod y rheswm dros beidio â bod yn bresennol ac arfer chwilfrydedd proffesiynol er mwyn archwilio unrhyw rwystrau i ymgysylltu.
- Cadarnhau bod y manylion cyswllt yn gyfredol ac aildrefnu'r apwyntiad os oes angen, gan ystyried unrhyw rwystrau a nodwyd. Dylid cofnodi hyn yn glir.
- Dylid ystyried galluedd meddyliol yr unigolyn sydd wedi colli'r apwyntiad (os yw'n 16 oed neu'n hŷn. Cyfeiriwch at y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ac egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol (2005) i gael rhagor o wybodaeth.
- Dylid ystyried hanes presenoldeb yr unigolyn, neu os collwyd yr apwyntiad cyntaf, dylid ystyried trafodaeth â'r atgyfeiriwr i nodi unrhyw risg neu bryder posibl.
- Os nodir risgiau neu bryderon mewn perthynas â diffyg presenoldeb yr oedolyn, dylai'r ymarferydd geisio cyngor gan Arweinydd Diogelu'r sefydliad neu Dîm Diogelu Oedolion yr Awdurdod Lleol. Gall y Canllawiau Diogelu Oedolion Rhanbarthol roi cymorth ar arfer barn broffesiynol, ac mae'r ddogfen ar gael yma: [Canllawiau Diogelu Oedolion – Rhoi gwybod neu beidio â rhoi gwybod]
- Os yw'r risgiau a nodir yn sylweddol, dylid cyflwyno Ffurflen Dyletswydd i Adrodd i'r Tîm Diogelu Oedolion. Os ystyrir bod y pryderon yn fater brys, dylid gwneud hyn dros y ffôn yn y lle cyntaf ac olrhain y mater cyn pen 24 awr drwy gyflwyno manylion y Ddyletswydd i Adrodd. Gellir dod o hyd i wybodaeth ar gyflwyno Dyletswydd i Adrodd ar gyfer Plant yng Ngwent yma: [Rhoi gwybod am oedolyn sydd mewn perygl - Diogelu Gwent].

## Diogelu Pobl Feichiog na chânt eu hebrwng i apwyntiadau

Mae'n bwysig bod ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl feichiog yn ymwybodol o'r angen i'w diogelu nhw a'u plentyn/plant yn y groth os na chânt eu hebrwng i apwyntiadau sy'n ymwneud â beichiogrwydd. Gall yr apwyntiadau hyn gynnwys apwyntiadau

mamolaeth/cynenedigol, meddyg teulu, iechyd rhywiol ac erthyliad. Dylid ystyried os na chaiff unigolyn ei hebrwng i apwyntiadau o'r fath y gallai fod yn parhau â beichiogrwydd. Mae'n bwysig cadarnhau nad yw'r unigolyn yn ceisio cuddio beichiogrwydd, a fyddai'n peri risg uchel i'r unigolyn beichiog, ac i'r plentyn yn y groth. Mae rhagor o ganllawiau ar gael yma:

- Gall goblygiadau beichiogrwydd, lle nad yw apwyntiadau cyn-geni yn cael eu mynychu, fod yn ddifrifol. Gall y rhain gynnwys;
    - Esgeuluso'r ffetws
    - Abnormaleddau'r ffetws sydd heb eu canfod
    - Problemau iechyd meddwl gan gynnwys iselder ôl-enedigol
    - Cyflyrau meddygol megis diabetes yn ystod beichiogrwydd
    - Marwolaeth y fam a'r ffetws.

  Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr.

- Mae llawer o resymau posibl pam na fydd pobl feichiog yn mynd i apwyntiadau neu na chânt eu hebrwng. Gall y rhain gynnwys;
    - Ansicrwydd o ran y beichiogrwydd
    - Penderfyniad wedi'i wneud i beidio â pharhau â'r beichiogrwydd
    - Ffordd o fyw anhrefnus, yn enwedig hunanesgeulustod, camddefnyddio sylweddau, plant blaenorol wedi'u tynnu o'u gofal
    - Cam-drin domestig, yn enwedig ymddygiadau gorfodaethol a rheolaethol
    - Anallu i gyrraedd apwyntiadau (oherwydd cyllid, pellter, gofal plant, gwaith, materion iechyd)
    - Ofn beichiogrwydd/ymarferwyr

    Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr.

- Dylid cysylltu â phobl feichiog lle collwyd apwyntiadau a rhoi cyfle iddynt rannu unrhyw anawsterau y maent yn eu hwynebu. Os bydd eu diffyg presenoldeb yn fater parhaus sy'n peri pryder, rhaid anfon Dyletswydd i Adrodd a mabwysiadu dull amlasiantaethol er mwyn rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau partner gan gynnwys Iechyd, yr Awdurdod Lleol, yr Heddlu a darparwyr y Trydydd Sector.

- Mae'n bwysig nodi na ddylai cyfrinachedd fod yn rhwystr i rannu pryderon ynghylch beichiogrwydd, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd rhywiol. Os credir bod unigolyn yn parhau â beichiogrwydd ac nad yw wedi mynychu apwyntiadau, mae diogelu'r plentyn yn y groth yn hollbwysig a rhaid rhannu gwybodaeth.

## Argymhellion o Adolygiadau Ymarfer

Mae Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion wedi dangos y gall fod effeithiau andwyol sylweddol ar blant ac oedolion pan na chânt eu hebrwng i apwyntiadau.

Mewn ymateb i argymhellion gan adolygiadau o'r fath, mae rhai o asiantaethau partner Gwent wedi cyflwyno gwasanaeth allgymorth pendant ac wedi mabwysiadu dull 'dim rhyddhau'. Mae hyn yn cydnabod y rhwystrau y gall pobl eu hwynebu wrth fynd i apwyntiadau ac yn sicrhau na fydd unigolion yn cael eu rhyddhau o wasanaeth oni bai eu bod yn nodi nad oes angen cymorth gan y gwasanaeth arnynt mwyach. Mae eu

hapwyntiadau bob amser yn cael eu cynnig ar sail allgymorth ac maent yn ystyried anghenion unigol.

## Casgliad

Bydd newid yr iaith o Heb Fynychu i Na Chânt eu Hebrwng yn achos plant, pobl ifanc, oedolion sy’n wynebu risg neu y mae angen gofal a chymorth arnynt, yn arwain at ymyriadau cadarnhaol i ddiogelu a hyrwyddo lles yr unigolion hyn, sy’n mynd y tu hwnt i’r apwyntiad a gollwyd, gan symud tuag at ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, fel y'i disgrifir mewn adolygiadau allweddol diweddar.

## Adnoddau

Rhestr Wirio Asesu Risg

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1** | Beth yw cyflwr iechyd, diagnosis, neu fregusrwydd yr unigolyn?<br><br>Ystyriwch ganlyniadau'r apwyntiad a gollwyd. | | |
| **2** | A gafodd yr unigolyn ei atgyfeirio i'r gwasanaeth?<br><br>Darllenwch fanylion yr atgyfeiriad. A oedd yr unigolyn wedi cydsynio i hyn? | Oedd/Nac oedd | |
| **3** | A oes hanes o golli ymweliadau/diffyg presenoldeb? Cofnodwch y nifer a thros ba gyfnod o amser. | Oes/Nac oes | |
| **4** | Os atebwyd ‘Oedd’ i gwestiwn 2, a oedd y plentyn, y person ifanc neu’r oedolyn mewn unrhyw berygl neu a nodwyd unrhyw risg pan nad oedd wedi ymateb? | Oedd/Nac oedd | |
| **5** | A yw asiantaethau eraill wedi codi unrhyw bryderon eraill? | Ydyn/Nac ydyn | |
| **6** | Pa mor hir sydd ers i’r plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn gael ei weld ddiwethaf ac o dan ba amgylchiadau a chan bwy? | | |
| **7** | A gafwyd cyfnod diweddar o salwch / mynd i'r ysbyty / digwyddiad bywyd? | Do/Naddo | |
| | A yw'r unigolyn yn ddibynnol ar unigolyn arall i'w gynorthwyo i fynd i'w hapwyntiadau? | | |
| **8** | Yn achos oedolion - a oes hanes o gwympo/grwydro/hunanesgeuluso | Oes/Nac oes | |
| **9** | A all y plentyn, y person ifanc neu’r oedolyn symud y tu allan i’w gartref? | Ydy/Nac ydy | |
| **10** | Yn eich barn chi, a allai’r plentyn, y person ifanc neu’r oedolyn wynebu risg o niwed uniongyrchol os na chaiff ei weld? Os felly, pam? | Gallai/Na allai | |
| **11** | A oes unrhyw bryderon diogelu ar hyn o bryd? | Oes/Nac oes | |